# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd Margaret M Roberts (Cadeirydd) |
| | **Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Mrs Ann Kennedy |
| | **Aelod Annibynnol** |
| | Dr Teleri M Jones |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GPW)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dylan Rees |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Panel Dethol a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025 ac fe gadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Penderfynu o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y broses gyfweld ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer er mwyn penodi ar gyfer y sedd wag fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod y Panel Dethol wedi cwrdd ar 21 Hydref 2025 i lunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld.

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i'r cyfarfod a chyflwyno'r Panel. Rhoddodd drosolwg o rôl y aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau ac egluro'r broses penodi i bob unigolyn.

Cafodd yr ymgeiswyr eu hystyried yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd yn yr adroddiad, a chynhaliwyd y cyfweliadau gan y Panel.

Gan nad oedd modd i bob ymgeisydd ar y rhestr fer fynychu cyfarfod heddiw, cytunodd y Panel i gynnal cyfweliadau pellach ar gyfer yr ymgeiswyr hynny ar ddyddiad i gytuno arno.

**PENDERFYNWYD fod y Panel Dethol yn cwrdd eto i gyfweld yr ymgeiswyr perthnasol a dod i benderfyniad ar benodi aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau ar 13 Tachwedd 2025.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 am

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**